Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 13eg Mawrth 2017 am 7.00 o'r gloch

Presennol: H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Elwyn Evans, C. Crowley, Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Gadeirydd Wendy Whitby,(sâl) Is Gadeirydd Eleri Puw,(Mamolaeth)
Datgan Diddordeb:
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd Gareth Evans, diolch iddo am lenwi y bwlch.
Derbyniwyd cofnodion Chwefror 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd,

1. Cae Chwarae: Diolch i Cyng Thompson am drwsio yr arwydd. Hefyd ar lafar gan Jenny Evans, Cadeirydd Sioe Abergynolwyn a alwodd fewn i'r cyfarfod i gadarnhau bod pwyllgor y Sioe am gyfranu tuag at un mainc picnic oedolyn ac un plentyn, fyny at £1,000.00. Dymuniad Jenny oedd i ni rhoi yr hen rai i Rheilffordd Talyllyn. Pasiwyd i ni eu archebu yn fuan. Yr oedd gwirfoddolwyr wedi trwsio darn o ffram siglen, ond mi oedd nwyddau a gyfranwyd gan Rheilffordd Talyllyn yn costio £20.00, derbyniwyd trydan gan deulu 24 Heol y Dwr. Pasiwyd i dalu a rhoi wy Pasg i ferch fach Heol y Dwr, hefyd ein diolchiadau i'r ddau wirfoddolwr. Derbyniwyd cadarnhad gan Sean's Lawns ei fod am gario ymlaen efo torri gwair yr un fath a llynedd. Cafwyd apêl blynyddol gan Steve Lewis, i redeg y Ras Hwyaid ar y 30/04/17. Cytunwyd yn unfrydol.
2. Mynwent: Pasiwyd i dalu Justin Beard am wneud y gwaith ar gât y fynedfa.
3. Llwybrau: Nodwyd pryder nad oedd canllaw wedi ei osod ar Llwybyr Meriafel i Cwrt gan fod y stepiau moruchel.
4. Cyng. Gwynedd: Adroddodd bod y dreth yn mynd fyny 2.8%. Cafodd cwyn am ffordd y Chwarel. Adroddodd am Pwyllgor Apêl Tywyn, Cyng. Anne Lloyd Jones i'r gadair a Cyng. Alun Wyn yn Is Gadeirydd.
   Y Clerc Eileen Jones i gynrhychioli Abergynolwyn. Diolch Cyng Lawton.
5. Ciosg: Ni does dim yw adrodd.
6. Derbyniwyd anfoneb BDO archwilwyr allanol, yr oedd yn £90 yn uwch na llynedd. Pasiwyd yw dalu ond yr oedd y Clerc wedi clywed bod amryw wedi cael anfonebau is felly pasiwyd edrych fewn i'r costau. Ar ol cael y manylion penderfynydd y Clerc ei dalu.
7. Toiledau Cyhoeddus: derbyniwyd y cytundeb, rhai wedi clywed bod ambell le wedi cael gostyngiad, holwyd i'r Clerc edrych fewn i hyn.
8. Parti Dydd Gwyl Dewi: Adroddodd y Cadeirydd ei fod yn falch o weld y lle yn llawn, a phob oedran yn mwynhau y wledd a gafwyd. Diolch i aelodau Pwyllgor Carnifal. Derbyniwyd gair o ddiolch gan Pwyllgor Carnifal.
9. Lori Bin: Danghoswyd pryder bod y lori yn trafeilio o flaen tai Tanybryn, lle mynd o amgylch y ffordd a fyny heibio y Ganolfan at y man mae pawb yn gosod y biniau. Derbyniwyd bod bin y cae Chwarae yn cae lei allos yn rheolaidd.
10. Cais Cynllunio: (1) Fferm Cedris – codi mast telathrebu 15m o uchder yn ymgorffori 2 atena, 2 dysglen, dysglen lloeren, generadur, caban offer, compownd diogel – trafodwyd , nodwyd na fyddai'n amharu ar y "visual impact" ond oes oedd yn gwella y signal i ffoniau symudol – croeso. (2) Caerberllan – lleoli 9 uned rhwng Awst 11eg, a Medi 11eg fel rhan o broject "Blwyddyn Chwedla Croeso Cymru" Trafodwyd a phasiwyd yw groesawi.
11. Pasiwyd holiadur Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng I bwyllgor Y Ganolfan,
12. Gosodwyd poster Dewis Cymru.
13. Adolygiad Comisiwn ffiniau etholiadol yn Ngwynedd: Trafodwyd a phasiwyd i ddanfon atynynt – "Pan fydd y swyddogion yn tynnu allan y draft plis a wnant edrych ar demograffu ardaloedd.
14. Clerc: Pasiwyd i dalu y cyflog a chostau am 2016 – 17.
15. Archwiliad Mewnol: Pasiwyd i dalu Mr John Roberts am 2016 /17
16. Mrs Baxter: Daeth cais gan Mrs Baxter am olau trydan wrth ymyl safle bws ym Minffordd. Pasiwyd i gefnogi a danfon at Cyngor Gwynedd.
17. Apêl am arian: Derbyniwyd llythyr gan Clybiau Ffermwyr Ieuance Meirionnydd, trafodwyd a phasiwyd i roi rhodd.
18. Polion ger LLyn Mwyngul: Adroddodd Cyng R. Jones, bod y polion wedi eu gosod ar caniatad Asiantaeth Naturiol Cymru.- Diolch
19. Taliadau:

Justin Beard	gât £150.00	siec 888
CFFI	rhodd 100.0	889
E Jones	cyflog 1046.04	890
E Jones	costau 304.42	891
J Roberts	mewnol 55.00	892
Rheilffordd Talyllyn	nwyddau 20.00	893

YMDDIRIEDOLAETH - MARI JONES:

Derbyniwyd £2. 24 o blwch Mari Jones – diolch Cyng. Evans.
Paratowyd asesiad risg gan y Cyng. Emrys Thompson – diolch.
Angen atgoffa Jones & Jones i lanhau tu fewn y myrddin.

Cyfarfod Nesaf Nos Lun 10fed Ebrill 2017 - Cyffredin am 7 o'r gloch